

CYLCHLYTHYR MEWNGYMORTH YSGOLION

CROESO NÔL



YN Y RHIFYN HWN:

- Croeso nôl
- Trosolwg o'r gwerthusiad
- 'Llongyfarchiadau Chloe'
- Sylw i wasanaeth
- Diweddariadau Gwasanaeth

Helo gan bob un ohonom yn y gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion!

Gobeithio eich bod chi wedi cael gwyliau haf braf, gyda chyfle i ymlacio ar ôl blwyddyn ysgol brysur arall. Dros yr Haf, rydym wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer y tymor sydd i ddod; yn gweithio ar ein prosesau, ein cynnig grŵp a'n phe cynnau hyfforddi. Rydym yn llawn cyffro i fod yn ôl mewn ysgolion ac mewn lleoliadau addysg ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

ROSOLWG O'R GWERTHUSIAD:

Hoffem ddiolch i chi am gwblhau'r holiadur gwerthuso diwedd blwyddyn. Mae eich adborth wedi ein helpu i ddod ynghyd i adolygu, diweddarau a datblygu agweddau ar ein gwasanaeth, gan gynnwys:



- Diweddarau ein hadnoddau a'n cynnig hyfforddi
- Addasu sut rydym yn casglu adborth drwy gydol y flwyddyn (gan staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr)
- Gwneud addasiadau i'r grŵp Mewngymorth Ysgolion
- Esblygu'r cynllun peilot ysgolion cynradd



'LLONGYFARCHIADAU CHLOE'

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Chloe wedi bod yn gweithio gyda ymdrech ddiysgog, gan gydbwysu ei rôl yn y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion ochr yn ochr â'i hastudiaethau. Ar 16 Gorffennaf, dathlwyd ei holl waith caled wrth iddi raddio gyda Rhagoriaeth yn ei MA mewn Seicotherapi Celf!



Ni allem fod yn fwy balch o bopeth rwyf ti wedi'i gyflawni ac rydym yn llawn cyffro i weld beth rwyf ti'n mynd i'w wneud nesaf. Da iawn a llongyfarchiadau, Chloe!"

BETH OEDD RHAN FWYAF DEFNYDDIOL Y GWASANAETH?



Uchafbwyntiau
ein
gwerthusiad:



65

o ymatebion

"Rwy'n hoffi agwedd ymgorfforedig y gwasanaeth o weithio gyda staff, rhieni a disgyblion gan fy mod yn teimlo mai dyma'r ffordd orau o fod o fudd i'r disgyblion dan sylw."

"Mae'r sesiynau grŵp yn arbennig o ddefnyddiol. Dim ond e-bost neu alwad ffôn ac maen nhw'n dod i mewn i'r ysgol heb unrhyw ffws."

"Mae Mewngymorth Ysgolion yn wych ac yn rhoi cymaint o amser ac ymdrech i'n hysgol a'n disgyblion. Maen nhw wedi bod yn gefnogaeth anhygoel i ni ac i rai disgyblion gwirioneddol agored i niwed - gallem ni wneud â chloniau ohonyn nhw i gael nhw yma drwy'r amser 😊"

CYLCHLYTHYR MEWNGYMORTH YSGOLION

SYLW I WASANAETH

'EDUCATION SUPPORT'

Roedden ni hefyd eisiau cymryd eiliad i dynnu eich sylw at 'Education Support' – sefydliad sy'n ymroddedig i hyrwyddo iechyd meddwl a lles staff addysg. Maent yn cynnig ystod eang o adnoddau, cefnogaeth uniongyrchol, a llinell gymorth gyfrinachol i unrhyw un sy'n gweithio ym myd addysg.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy fynd i'w gwefan: <https://www.educationsupport.org.uk/>



BEAT

Roedden ni eisiau tynnu sylw at adnoddau BEAT a hyfforddiant SPOT. Yn dilyn ein hadolygiad gwerthuso diweddar, tynnodd llawer o ysgolion sylw at yr angen am fwy o gefnogaeth i helpu pobl ifanc ag anhwylderau bwyta. Mae SPOT (Hyfforddiant Ar-lein Proffesiynol Ysgolion) yn blatfform e-ddysgu a ddatblygwyd i gefnogi'r rhai sy'n gweithio gyda phlant oedran ysgol. Mae'n rhoi'r wybodaeth i staff i adnabod arwyddion anhwylder bwyta, gwneud atgyfeiriadau amserol ar gyfer triniaeth, a chefnogi disgyblion drwy gydol eu hadferiad.

Ewch i beateatingdisorders.org.uk/SPOT i ddysgu mwy am SPOT

DIWEDDARIADAU GWASANAETH

Hyfforddiant

ros yr haf, fe wnaethon ni edrych ar ein hadborth hyfforddi, er mwyn i ni esblygu sut rydym yn darparu hyfforddiant wrth symud ymlaen. Bydd ein hyfforddiant mynediad agored yn symud i ddarpariaeth wyneb yn wyneb yn lle ar-lein – byddwn yn rhannu dyddiadau yn fuan.

Yn ogystal, rydym yn blaenoriaethu hyfforddiant o fewn ysgolion unigol (ar gyfer timau staff cyfan neu grwpiau staff llai), neu ddarpariaeth ar y cyd ar draws cwpwl o ysgolion mewn clwstwr.

Gall ysgolion uwchradd barhau i ofyn am hyfforddiant mewn cyfarfodydd blaenoriaethu gyda'u Huwch Ymarferydd Iechyd Meddwl.

Cynnig Cynradd



fis Medi ymlaen, rydym yn gyffrous i rannu amrywiaeth o adnoddau ar-lein, gan gynnwys fideos byr, rhestrau gwirio pontio, a sesiynau hyfforddi dethol y gall ysgolion ofyn amdanynt i'w cyflwyno wyneb yn wyneb. Yn dilyn hyfforddiant, byddwn hefyd yn gallu cynnig hyd at ddau slot ymgynghori i gefnogi gwaith myfyrio ynghylch pobl ifanc penodol neu themâu allweddol.

Yn ogystal â hyn, mae gennym gapasiti bach i gyd-gyflwyno ein sesiynau grŵp presennol 'Mae Teimladau'n Bethau Rhyfedd' a 'Coeden Bywyd' ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 5 a 6 ochr yn ochr â staff addysg. Byddwn yn cysylltu â chi gyda rhagor o wybodaeth am ein cynnig ysgolion cynradd drwy e-bost. Os hoffech gysylltu â ni, anfonwch e-bost at: schoolinreach.cav@wales.nhs.uk

DIWEDDARIAD I'R WEFAN

Rydym yn gweithio ar ddiweddarau ein hadnoddau mewngymorth ysgolion a diweddarau ein gwefan. Cymrwch gipolwg yma:

<https://cavyoungwellbeing.wales/young-people/emotional-wellbeing-mental-health/our-services/school-in-reach/>



or scan the QR code: